Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Crynodeb o'r Cofnodion – 18 Mai 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys y Grŵp Perchnogaeth Gwasanaethau) – Ebrill 2009
Bu i'r Bwrdd fonitro'r cerdyn sgorio ym maes busnes, gan olrhain y cyflawniad yn ôl y targedau a osodwyd a chan nodi'r canlyniadau yn ôl y rhestr o eitemau oedd i'w gwireddu ar gyfer 2009/10.

Baich Gwaith - Ebrill 2009
Roedd y Bwrdd yn falch o gael nodi bod y cynnydd misol o ran cyfartaledd yr amser prosesu ar gyfer dogfennau yn dal yn sefydlog.

Cerdyn Sgorio Lefel y Manteisio ar e-ffeilio – Ebrill 2009
Nododd y Bwrdd y cerdyn sgorio fel y cafodd ei gyflwyno ac roedd yn falch o gael gweld bod lefel y manteisio ar ffeilio electronig yn dal i godi'n gyffredinol.

Targedau Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau 2009/10
Nododd y Bwrdd y set gyntaf o ganlyniadau yn ôl y targedau cyhoeddus newydd.

Risgiau Tyngedfennol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau fel y cawsant eu cyflwyno, gan gynnwys risg newydd ychwanegol – Cwsmeriaid/Budd-ddeiliaid (Proses Fusnes).

Tîm Cyfathrebu Mewnol – Diweddariad Chwarterol
Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am waith y Tîm.

Y Sefyllfa Ddiweddaraf o ran Iechyd a Diogelwch
Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Pleser gan Dŷ'r Cwmnïau oedd bod wedi ailennill y wobr "Arian" am Safon Iechyd Gorfforaethol, a oedd yn ddyfarniad cenedlaethol am ansawdd iechyd a lles yn y gweithle.

Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil
Bwriodd y Bwrdd lygad dros gopi o'r Arolwg drafft o Bobl y Gwasanaeth Sifil, a gâi ei ddosbarthu ymhlith y staff yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Arolwg Blaenoriaethau Busnes
Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y gwaith dadansoddi a wnaed hyd yn hyn.

Prawf Prosesu Cellog
Nododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Ymddangosai bod y prawf yn gweithio'n dda ac fe gawsai ei estyn ymhellach i gael gweld a oedd y cysyniad yn gweithio ar raddfa ehangach.

Adroddiad Blynyddol – Y Sefyllfa Ddiweddaraf
Nododd y Bwrdd y câi'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol drafft eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Ariannol ar 20 Mai ar gyfer ei sylwadau.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Mai 2009